2006/2007

Medi 2007

Awduron: Matthew Edwards a Mark Roberts Cyf: 610A2007

# Asesiad o'r Archwiliad Mewnol 2006/2007

# Awdurdod Tân Gogledd Cymru

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Mae'r Archwiliad Mewnol wedi cydymffurfio'n llawn â saith o'r 10 safon Archwilio Mewnol. Er na chynhyrchodd Archwiliad Mewnol Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2006/2007, cynhyrchodd strategaeth ar gyfer 2007/2008 | 4 |
| **Atodiadau** | |
| Cynllun Gweithredu | 7 |
| Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig | 8 |

## Statws y ddogfen hon

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Awdurdod Tân Gogledd Cymru fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a'r 'Datganiadau o Gyfrifoldebau' a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) yn atebol i unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti. Pe derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

## Mae'r Archwiliad Mewnol wedi cydymffurfio'n llawn â saith o'r 10 Safon Archwilio Mewnol. Er na chynhyrchodd Archwiliad Mewnol Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2006/2007, cynhyrchodd strategaeth ar gyfer 2007/2008

1. Mae'r Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Safon Rhyngwladol o Archwilio 610 yn ei gwneud yn ofynnol ein ein bod yn ystyried p'un a yw trefniadau rheolaeth ariannol mewnol Awdurdod Tân Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn ddigonol. Mae'r Archwiliad Mewnol yn elfen allweddol o drefniadaeth rheolaeth ariannol yr Awdurdod.
2. Mae Adran Archwiliad Mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn rheoli ac yn darparu staff ar gyfer y swyddogaeth Archwilio Mewnol yn yr Awdurdod.
3. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn bod Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig yn cynrychioli arferion cywir. Cynhaliwyd ein hasesiad yn unol â'r safonau a nodir yng Nghod Ymarfer CIPFA. Mae rhagor o wybodaeth am y gwahanol agweddau a gwmpesir gan bob safon ar gael yn Atodiad 2.
4. Gwnaethom adolygu sampl o gynlluniau archwilio a rhaglenni, lefelau staffio, papurau gwaith ac adroddiadau ar gyfer amrywiaeth o systemau, er mwyn penderfynu i ba raddau yr oeddent yn cydymffurfio â'r safonau Archwiliad Mewnol.
5. Yn gyffredinol rydym wedi dod i'r casgliad bod trefniadau Archwilio Mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cydymffurfio'n llawn â saith o'r safonau Archwilio Mewnol ar gyfer llywodraeth leol.
6. Mae'r Awdurdod a'r Archwiliad Mewnol wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn ein hasesiad y llynedd. Mae Archwiliad Mewnol wedi gwneud cynnydd o ran datblygu Strategaeth Archwilio ar gyfer 2007/2008 yn unol â gofynion safonau CIPFA, er nad oedd strategaeth o'r fath ar waith ar gyfer y flwyddyn a adolygwyd.
7. Adolygwyd cylch gorchwyl y Panel Gweithredol hefyd yn ystod y flwyddyn i gwmpasu cylch gorchwyl Pwyllgor Archwilio. Newydd ddechrau goruchwylio rheolaethau mewnol yr Awdurdod y mae'r Panel Gweithredol. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Panel Gweithredol ac yn monitro ei gynnydd dros y flwyddyn sydd i ddod.
8. Amlinellir ein hasesiad o bob un o'r safonau yn Arddangosyn 1.

**Arddangosyn 1: Bodlonwyd saith allan o'r deg safon yn llawn**

| Safon ac agweddau | | A gyrhaeddwyd y safon | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| **Safonau sefydliadol** | | | |
| 1 | Cwmpas yr Archwiliad Mewnol | Do | Mae cwmpas cyffredinol Archwiliad Mewnol yn cydymffurfio â gofynion Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol.<br>Nodir cwmpas cyffredinol yr Archwiliad Mewnol yn rheoliadau ariannol yr Awdurdod a'u cwmpasu yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth a lofnodwyd ym mis Ebrill 2004. Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn cwmpasu'r elfennau hynny a ddisgwylir ac nid yw'n darparu unrhyw gyfyngiad ar gwmpas gwaith yr Archwiliad Mewnol. |
| 2 | Annibyniaeth | Do | Mae gan yr Archwiliad Mewnol annibyniaeth o ran statws sefydliadol a gwrthrychedd personol i'w alluogi i ymgymryd â'i waith yn effeithiol.<br>Mae'n rhaid i staff yr Archwiliad Mewnol gwblhau datganiadau blynyddol o'u diddordeb sy'n gyflawn ac wedi'u diweddaru. |
| 3 | Pwyllgorau archwilio | Do | Diwygiwyd cylch gorchwyl y Panel Gweithredol ym mis Ionawr 2007 i gynnwys cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio. Newydd ddechrau goruchwylio rheolaethau mewnol yr Awdurdod y mae'r Panel Gweithredol. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Panel Gweithredol ac yn monitro ei gynnydd dros y flwyddyn sydd i ddod.<br>Aeth y Trysorydd i'r rhan fwyaf o'r paneli gweithredol yn ystod y flwyddyn a chafodd gyfle digonol i drafod gyda Chadeirydd y Panel Gweithredol. Mae Archwiliad Mewnol yn bwriadu mynychu gyfarfodydd perthnasol y Panel Gweithredol yn ystod 2007/2008. |
| 4 | Cydberthnasau | Rhannol | Mae'r Archwiliad Mewnol yn parhau i ddatblygu ei gydberthnasau â rheolwyr. Cynhaliwyd cyfarfodydd yn ddiweddar rhwng Archwiliad Mewnol ac uwch reolwyr i roi gwybod am Broses Cynllunio Blynyddol Archwiliad Mewnol ar gyfer 2007/2008, er nad oedd trefniadau o'r fath ar waith i lywio Proses Cynllunio Archwiliad 2006/2007.<br>Datblygwyd cydberthynas adeiladol rhwng Archwiliad Mewnol a Swyddfa Archwilio Cymru, a gryfhawyd ymhellach gyda chytundeb diweddar i lunio Protocol Archwilio ar y Cyd. Mae'r ddogfen yn egluro'r gydberthynas waith rhwng Archwiliad Allanol ac Archwiliad Mewnol. |

| Safon ac agweddau | | A gyrhaeddwyd y safon | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| 5 | Staffio, hyfforddi a datblygu | Do | Sefydlwyd trefniadau digonol er mwyn sicrhau bod gan staff yr Archwiliad Mewnol y sgiliau priodol i gyflawni eu cyfrifoldebau.<br>Mae Rhaglen Hyfforddi a Datblygu yn ei lle ac mae'r staff i gyd yn cymryd rhan mewn System Arfarnu ffurfiol. |
| **Safonau gweithredol** | | | |
| 6 | Strategaeth Archwilio | Naddo * | Nid yw'r Archwiliad Mewnol wedi llunio Strategaeth Archwiliad Mewnol ar gyfer 2007/2008 sy'n nodi cwmpas gwaith yr Archwiliad Mewnol ac yn manylu ar sut a phryd y darperir y gwaith.<br>* Datblygwyd trefniadau ar gyfer 2007/2008 drwy gynhyrchu Strategaeth Archwilio, a gyflwynwyd i'r Panel Gweithredol ar 21 Mai 2007. Roedd y ddogfen yn cydymffurfio â gofynion safon CIPFA. |
| 7 | Rheoli aseiniadau archwilio | Rhannol | Rheolir aseiniadau'r Archwiliad Mewnol yn dda a chynhyrchir papurau gwaith ategol i safon dda.<br>Datgelodd ein hadolygiad y cynhaliwyd gwaith dilynol ar bob un o'r argymhellion risg canolig a risg uchel a godwyd yn 2005/2006 gan yr Archwiliad Mewnol. Ni wnaed gwaith dilynol ar bump o'r argymhellion risg isel a gododd o'r 'Pencadlys Isadran Orllewinol a Chadw' gan yr Archwiliad Mewnol oherwydd i'r rheolwyr bennu nad oedd yn gost effeithiol nac yn briodol. |
| 8 | Gofal proffesiynol priodol | Do | Mae gan yr Archwiliad Mewnol weithdrefnau yn eu lle i sicrhau bod staff Archwiliad Mewnol yn ymwybodol o'r ymddygiadau disgwyliedig a'u bod yn cadw atynt, wrth arfer gofal proffesiynol priodol. |
| 9 | Cyflwyno adroddiad | Do | Yn gyffredinol, mae'r Archwiliad Mewnol yn paratoi adroddiadau aseiniad sy'n glir, yn gryno ac yn adeiladol.<br>Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol yr Archwiliad Mewnol i'r Panel Gweithredol ar 21 Mai 2007. Cydymffurfiodd yr adroddiad â'r canllawiau yng Nghod Ymarfer CIPFA. |
| 10 | Sicrwydd Ansawdd | Do | Mae Llawlyfr yr Archwiliad Mewnol yn nodi'r polisïau a'r gweithdrefnau y mae'r Archwiliad Mewnol yn eu dilyn wrth gynnal ei waith.<br>Mae pob aseiniad archwilio yn destun adolygiad gan aelod cymwys a phrofiadol o staff Archwiliad Mewnol.<br>Roedd y gwaith a wnaethpwyd wedi'i gynhyrchu i safon dda a chofnodwyd y canlyniadau a gafwyd a'r casgliadau a luniwyd yn gywir. |

Atodiad 1

## Cynllun Gweithredu

| Tudalen | Argymhelliad | Blaenoriaeth<br>1 = Isel<br>2 = Canolig<br>3 = Uchel | Cyfrifoldeb | Cytunwyd | Sylwadau | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | A1 Dylai Archwiliad Mewnol barhau i ddatblygu cydberthnasau gwaith effeithiol gydag uwch reolwyr drwy'u cyfarfod yn rheolaidd a mynychu cyfarfodydd perthnasol y Panel Gweithredol. | 2 | Mike Halstead, Pennaeth Archwiliad Mewnol | Do | Caiff ei dderbyn na chynhaliwyd cyfarfod i lywio Proses Gynllunio 2006/2007. Cynhaliwyd cyfarfod i lywio Proses Gynllunio 2007/2008 a chynhelir cyfarfodydd yn rheolaidd yn y dyfodol. Mynychir cyfarfodydd y Panel Gweithredol gan Archwiliad Mewnol. | Gweithredwyd |
| 6 | A2 Dylid cynnal gwaith dilynol ac adolygiad o ran argymhellion y flwyddyn flaenorol (waeth beth yw'r risg). | 3 | Mike Halstead, Pennaeth Archwiliad Mewnol | Do | Disgwylir y cwblheir gwaith dilynol ar holl argymhellion yr archwiliad a wnaed yn ystod 2006/2007 yn ystod 2007/2008. | Archwiliad 2007/2008 |

Atodiad 2

# Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwiliad Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig

| Safon ac agweddau | |
|---|---|
| 1 | **Cwmpas yr Archwiliad Mewnol**<br>• cylch gorchwyl;<br>• cwmpas y gwaith;<br>• gwaith arall; a<br>• twyll a llygredd. |
| 2 | **Annibyniaeth**<br>• egwyddorion annibyniaeth;<br>• annibyniaeth sefydliadol;<br>• statws Pennaeth Archwiliad Mewnol;<br>• annibyniaeth archwilwyr mewnol unigol;<br>• annibyniaeth contractwyr Archwiliad Mewnol; a<br>• Datganiad o Ddiddordeb. |
| 3 | **Pwyllgorau archwilio**<br>• diben y Pwyllgor Archwilio; a<br>• cydberthynas Archwiliad Mewnol â'r Pwyllgor Archwilio. |
| 4 | **Cydberthnasau**<br>• egwyddorion cydberthnasau da;<br>• cydberthnasau â'r adran reoli;<br>• cydberthnasau ag archwilwyr mewnol eraill;<br>• cydberthnasau ag archwilwyr allanol;<br>• cydberthnasau â rheoleiddwyr ac arolygwyr eraill; a<br>• cydberthnasau ag aelodau etholedig. |
| 5 | **Staffio, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus**<br>• staffio Archwiliad Mewnol; a<br>• hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus. |
| 6 | **Strategaeth Archwilio a Chynllunio**<br>• Strategaeth Archwilio; a<br>• cynllunio archwiliadau. |
| 7 | **Cyflawni gwaith archwilio**<br>• cynllunio;<br>• ymagwedd; a<br>• cofnodi aseiniadau archwiliadau. |
| 8 | **Gofal proffesiynol priodol**<br>• egwyddorion gofal proffesiynol priodol;<br>• cyfrifoldebau'r archwilydd unigol; a<br>• cyfrifoldebau'r Pennaeth Archwiliad Mewnol. |

| Safon ac agweddau | |
|---|---|
| 9 | **Cyflwyno adroddiad**<br>• egwyddorion cyflwyno adroddiadau;<br>• cyflwyno adroddiadau ar waith archwilio;<br>• archwiliadau a chyflwyno adroddiadau dilynol; a<br>• cyflwyno adroddiadau blynyddol a chyflwyno barn archwilio. |
| 10 | **Perfformiad, ansawdd ac effeithiolrwydd**<br>• egwyddorion perfformiad, ansawdd ac effeithiolrwydd;<br>• Sicrwydd Ansawdd gwaith archwilio; a<br>• perfformiad ac effeithiolrwydd y Gwasanaeth Archwiliad Mewnol. |

Swyddfa Archwilio Cymru
2-4 Park Grove
Caerdydd CF10 3PA
Ffôn: 029 2026 0260
Ffacs: 029 2026 0026
Ffôn Testun: 029 2026 2646
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk